OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 2499 (Cy.274) (C.98)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2012

Gwnaed - - - - 1 Hydref 2012

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 120(2) a (3) o Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012(**1**).

Enwi, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2012.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Diogelu Rhyddidau 2012.

Y diwrnod penodedig

2.—(1) Daw darpariaethau'r Ddeddf a restrir ym mharagraff (2) isod i rym ar 1 Hydref 2012.

(2) Y darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) uchod yw—

(a) Adran 56; a

(b) Atodlen 4.

Carl Sargeant
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau,
un o Weinidogion Cymru.

1 Hydref 2012

(**1**) 2012 p.9.